

Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)



PAPUR CEFNDIR 27 DIWYGIEDIG - CYFLWYNO

Ardaloedd Tirwedd Arbennig

Awst 2012

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/cdll, Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fydddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575181 / 575124 / 575445 / 575447.

Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partiön; a Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordians.

CYNNWYS

	Tudalen
1. Cyflwyniad	5
2. Proses nodi ATAau yn Ardal y Cynllun	8
3. Cyfiawnhad dros bob ATA.....	25
3.1. Y Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn	25
3.2. Cefnwlad Abergele	27
3.3. Dyffrynnoedd Elwy ac Aled	28
3.4. Hiraethog	30
3.5. Cerrigydrudion a choridor yr A5	31
3.6. Dyffryn Conwy.....	33
4. Pwrpas y Polisi NTE/5.....	34
5. Cysondeb ag Awdurdodau Cyfagos.....	35
6. Casgliadau a Chrynodeb	38
7. Rhagor o ddarllen a gwybodaeth.....	39
Atodiad Un	40

Rhestr Byrfoddau

ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
ACT	Ardal Cadwraeth Tirwedd
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
APCE	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
ATA	Ardal Tirwedd Arbennig
BP	Papur Cefndir
BSC	Bwrdeistref Sirol Conwy
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
CDU	Cynllun Datblygu Unedol
LIC	Llywodraeth Cymru
PCC	Polisi Cynllunio Cymru, 2011
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r papur hwn yn un o gyfres o bapurau cefndir sy'n mynd gyda dogfen y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) i'w Archwilio gan y Cyhoedd Diwygiedig. Wrth gyhoeddi'r CDLI, rhaid i'r Cyngor hefyd egluro sut cafodd y polisi ei ffurfio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd. Mae'r papur cefndir hwn yn nodi'r rhesymu a chyfiawnhad ar gyfer y dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) sydd wedi'u nodi dan Bolisi NTE/5 a'u dangos ar y Map Cynigion.
- 1.2 Mae'r Papur Cefndir (BP) hwn yn darparu trosolwg o brosesau i nodi'r ATAAu gan ddefnyddio LANDMAP o fewn Ardal y Cynllun a'r rhesymu a chyfiawnhau ar gyfer y meini prawf sydd wedi'u nodi ym Mholisi NTE/5 yn y CDLI.
- 1.3 LANDMAP yw enw proses gyfrifiadurol i asesu tirwedd a gwneud penderfyniadau a ddyfeisiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a Grŵp Partneriaeth Tirweddau Cymru (sy'n cynnwys y prif gyrff llywodraeth leol yng Nghymru ar lefelau lleol a chanolog). Mae LANDMAP yn golygu Asesu Tirwedd a Phroses Gwneud Penderfyniadau, ac mae wedi'i ddylunio i gynorthwyo gwneud penderfyniadau dros amrywiaeth o ddisgyblaethau, er enghraifft, cynllunio datblygiadau a rheoli datblygiadau, gwelliannau amgylcheddol, bioamrywiaeth, coedwigaeth a datblygu gwledig. Mae pum haen agwedd wedi'u gwerthuso sy'n cynnwys y set lawn o wybodaeth LANDMAP. Y rhain yw:

Gweledol a Synhwyrdd: Mae'r haen agwedd hon yn nodi'r rhinweddau tirwedd hynny a ganfyddir trwy'r synhwyrdd. Mae'n delio â phriodoleddau ffisegol unigol tirffurf a gorchudd tir, yn ogystal â'u patrymau dosrannu gweledol a nodweddion synhwyrdd, a'r perthnasau rhyngddynt mewn ardal benodol.

Cynefinoedd Tirwedd: Mae'r haen agwedd hon yn edrych ar ddosbarthiad llystyfiant a chynefinoedd a'r sail i ecoleg tirweddu.

Tirwedd Ddiwylliannol: Mae haen agwedd hon yn ystyried y berthynas sy'n bodoli rhwng pobl a llefydd; sut mae pobl wedi rhoi ystyr i lefydd, sut mae'r dirwedd wedi siapia eu gweithredoedd a sut mae eu gweithredoedd wedi siapia'r dirwedd.

Tirwedd Ddaearegol: Mae'r haen agwedd hon yn astudio daeareg, geomorffoleg a hydroleg Conwy.

Tirwedd Hanesyddol: Mae'r haen agwedd hon yn canolbwyntio ar sut mae safleoedd archeolegol a hanesyddol yn cysylltu â'i gilydd ac â'r dirwedd o'u cwmpas.

Mae'r arfer o werthuso cymeriad tirweddau trwy'r LANDMAP wedi datblygu trwy set ddata sy'n gyson yn genedlaethol sy'n cynnwys pump o Agweddau wedi'u Gwerthuso ac sy'n cynnwys y camau canlynol:

- Cam 1:** Dosbarthu a mapio gwahanol Ardaloedd Agwedd
- Cam 2:** Cwblhau ffurflen gasglu data fanwl ar gyfer pob Ardal Agwedd sydd wedi'i nodi trwy waith desg a gwaith maes yn ôl priodoldeb.
- Cam 3:** Paratoi Adroddiad Technegol i gyd-fynd.
- Cam 4:** Cyflwyno ar gyfer asesiad Sicrwydd Ansawdd i sicrhau cysondeb a chywirdeb (ar gyfer astudiaethau sydd wedi'u seilio ar ddiweddariad methodoleg 2003)

- 1.4 Mae'r haenau Agwedd wedi'u Gwerthuso yn caniatáu nodi ardaloedd cymeriad tirwedd adnabyddadwy ledled Cymru, gydag argymelliadau wedi'u gwneud i reoli a gwella'r dreftadaeth dirwedd gyfoethog ac amrywiol mewn ffordd briodol ar gyfer y dyfodol. Defnyddio'r pum haen o wybodaeth sy'n hyrwyddo gwneud penderfyniadau cynaliadwy ynglŷn â thirwedd oherwydd gall yr hyn sy'n llai pwysig mewn un haen fod o bwysigrwydd mawr mewn un arall. Fel y cynghorwyd gan CCGC, mae'n hanfodol rhoi ystyriaeth gyfartal i'r pum haen i sicrhau nad yw unrhyw agwedd o'r dirwedd yn cael ei hesgeuluso.
- 1.5 O fewn ardal bwrdeistref Conwy roedd Ardaloedd Cymeriad Tirwedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn, Cynllun Ardal Llandudno/Conwy, Cynllun Fframwaith Gwynedd a'r Cynllun Datblygu Unedol drafft er mwyn rhoi mwy o bwys ar ddiogelu ardaloedd gwledig sydd heb eu datblygu. Ym mhob un o'r cynlluniau hyn roedd yr Ardaloedd Cymeriad yn cynnwys holl ardal y cynllun y tu allan i derfynau diffiniedig yr aneddiadau. Nid oes tystiolaeth bod gwerth tirwedd yn perthyn i bob un o'r ardaloedd cymeriad blaenorol ond mae pob un wedi'i defnyddio ers hynny yn y broses benderfynu.

- 1.6 Mae tystiolaeth yn LANDMAP ar gyfer nodi ATAau ac ar gyfer gwneud asesiadau o'r effaith ar dirwedd. Mae LANDMAP yn system mapio y gellir ei defnyddio i gasglu, trefnu a gwerthuso gwybodaeth am dirweddau i greu set ddata gyson ar gyfer pob rhan o'r wlad. Mae'r dull o gasglu gwybodaeth yn drefnus a thrylwyr ac mor wrthrychol ag sy'n bosibl. Yn ei chronfa ddata ceir gwybodaeth gymharol wrthrychol, fel y math o greigiau a gwybodaeth hanesyddol, yn ogystal â gwybodaeth fwy goddrychol, fel ymatebion synhwyaidd a dehongli diwylliannol. Gellir cyfuno gwybodaeth o LANDMAP hefyd â gwybodaeth economaidd-gymdeithasol am y cyd-destun.
- 1.7 Mae dynodiadau anstatudol wedi'u defnyddio ers amser maith yn system gynllunio'r DU i ddiogelu ardaloedd tirwedd, fel ATAau. Maent yn cael eu hystyried yn ffordd o ddiogelu tirweddau sensitif a meithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r nodweddion a phriodweddau hynny sy'n rhoi cymeriad neilltuol i ardaloedd lleol.
- 1.8 Mae Polisi Cynllunio Cymru, ym mharagraff 9.3.13, yn cymeradwyo defnyddio LANDMAP fel ffordd o asesu tirweddau sy'n cynnwys nodweddion unigryw lleol, ATAau a dyluniadau. Drwy ddiffinio ATAau gan ddefnyddio LANDMAP credir y bydd yn bosibl rheoli datblygiadau a dyluniadau newydd drwy bolisiau cysylltiedig ynghyd ag ystyriaethau tirwedd eraill.
- 1.9 Mae pob un o'r pump o haenau Agwedd wedi'u Gwerthuso ar gyfer Conwy wedi'i gwblhau yn ôl methodoleg ddiweddaraf CCGC 2003 (gweler <http://www.ccw.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/landmap/landmap-methodology.aspx>). Mae'r argymhellion a wnaethpwyd dan bob un o'r haenau Agwedd wedi'u Gwerthuso yn farn yr arbenigwyr a gasglodd yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr haenau hynny ac maent yn cynrychioli'r ardaloedd dynodedig sydd wedi'u nodi ar CDLI Conwy i'w archwilio gan y cyhoedd diwygiedig. Mae Polisi NTE/5, a'r gofyniad ar ddatblygwyr i gynhyrchu Asesiad LANDMAP, os yw'n briodol, yn darparu'r dulliau priodol i ddiogelu a gwella'r ardaloedd tirwedd o werth uchel ac eithriadol yng Nghonwy sydd wedi'u nodi trwy'r broses dynodi ATAau.


2. Proses nodi ATAau yn Ardal y Cynllun

2.1 Yn ôl y cyngor gan CCGC “ceir dynodi ATA am un neu ragor o resymau ond rhaid alinio rôl yr ATA yn glir â'r angen gwreiddiol am yr ATA er mwyn cyflawni amcan y dynodiad. Mae'n bwysig bod rôl yr ATA wedi'i hystyried yn ofalus mewn cysylltiad â'r hyn y mae Awdurdod Cynllunio Lleol yn ceisio ei gyflawni drwy ei bolisiâu eraill”.

2.2 Rhai rolau posibl i ATAau yw:

- Hybu dealltwriaeth a chydabyddiaeth o dirweddau sy'n cael eu hystyried yn werthfawr yn lleol sy'n bwysig oherwydd eu cymeriad, eu priodweddau a'u nawws unigryw.
- Mesur ychwanegol ar gyfer rheoli datblygiadau sy'n ymwneud yn benodol â diogelu tirweddau lle y gellid defnyddio'r amcanion ar gyfer ATA yn brif reswm dros wrthod datblygiadau amhriodol.
- Dylanwadu ar waith cynllunio tirwedd o fewn yr ATA er mwyn ei gwella. Er enghraifft, llunio canllawiau dylunio i sicrhau bod datblygiadau'n gydnaws â chymeriad y dirwedd neu'n ei wella neu dargedu grantiau ar gadw nodweddion tirwedd arbennig.

Ffig 1. Model CCGC ar gyfer nodi ATAau posibl drwy ddefnyddio LANDMAP



2.3 Cam 1 – Adolygu Meini Prawf Strategol

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori eisoes ar ei ddull o weithredu yn y CDLI Diwygiedig yn ystod Mawrth-Ebrill 2011. Dim ond un sylw a gafwyd am y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd Diwygiedig ym Mai 2011 a dau sylw am y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn 2009 a oedd yn ymwneud â Pholisi NTE/5. Roedd y gwrthwynebiadau'n ymwneud â diffyg eglurder a thystiolaeth. O ganlyniad i hyn, cafwyd dull newydd o weithredu a oedd yn defnyddio'r un dystiolaeth o LANDMAP ar gyfer cyfiawnhau ATAau clir a diffiniedig. Credir felly fod y dull hwn yn llawer mwy cadarn, goleuedig a thrylwyr na'r dull blaenorol.

Meini Prawf Strategol	Ymateb
1) Angen – i ba raddau y bydd y dynodiad yn fwy effeithiol wrth ddiogelu, rheoli neu ddarparu priodoledau arbennig yr ardal	Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn asesu datblygiadau gan ddefnyddio 3 chynllun mabwysiedig ar gyfer gwahanol ardaloedd. Mae ATAau neu ACTau yn y cynlluniau hyn sy'n cynnwys holl ardal y cynllun. Mae hyn yn dibrisio'r dynodiad. Mae'r CDLI wedi cyrraedd pwynt lle y gellir adolygu'r dull hwn o weithredu a chynnwys LANDMAP yn ffynhonnell dystiolaeth er mwyn nodi ATAau sy'n fwy ystyrlon. Bydd croesgyfeirio at bolisiâu eraill yn y CDLI a chanllawiau dylunio hefyd yn gwneud y wybodaeth yn fwy eglur i'r holl bartïon.
2) Cydlyniant – wrth ystyried ardaloedd i'w dynodi, sicrhau ei bod yn ymarferol datblygu polisiâu i'w diogelu, eu rheoli neu eu hyrwyddo.	Rydym yn derbyn bod yr ardaloedd presennol yn rhy fawr a'u bod mor aneglur fel eu bod yn golygu'r un peth ym mhob rhan o'r cynlluniau. Drwy bennu gwerth y tirweddau'n gywir, bydd y Cyngor yn gallu rheoli datblygiadau a'u gwneud yn fwy ymatebol lle bo angen. Bydd y broses gyfan yn fwy eglur a thryloyw drwy ddefnyddio LANDMAP.
3) Consensws – cytundeb a	Mae proses y CDLI yn sicrhau ein bod yn

chefnogaeth ddigonol i'r dynodiad, a rhaid cynnwys yr holl randdeiliaid gan gynnwys grwpiau cymunedol yn ogystal â rhai proffesiynol.	ymgyngori ag ystod eang o grwpiau. Dim ond 1 sylw a gafwyd am y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd Diwygiedig ym Mai 2011 a 2 am y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn 2009 a oedd yn ymwneud â Pholisi NTE/5. Roedd y gwrthwynebiadau'n ymwneud â diffyg eglurder a diffyg sylfaen dystiolaeth.
Casgliadau ac argymhellion	
Nid yw'r ATAau na'r ACTau presennol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cyngor o ran dylunio am eu bod yn rhy fawr. Nid oes llawer o wahaniaethu na thystiolaeth yn sail i'r dynodiadau. Drwy ddefnyddio LANDMAP bydd cyfle i adolygu ac egluro'r dull o weithredu a gwneud y rheswm a'r cyfiawnhad dros ddynodiadau o'r fath yn fwy eglur. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r holl bartïon a chyfleoedd i ymchwilio/asesu ymhellach yr effeithiau oddi wrth ddatblygiadau ar wahanol leoliadau a beth fydd y disgwyliadau o ran osgoi effeithiau neu eu lliniaru drwy ddylunio.	

2.4 Mae asesu *angen* yn Faen Prawf Strategol yng Ngham 1 y model ar gyfer dynodi ATAau posibl. Gellir adolygu ac ailasesu ATAau ar sail angen yng nghamau 2 a 3. Rhaid i angen fod yn gysylltiedig â phwrrpas, ond gall angen amrywio rhwng y naill awdurdod a'r llall, fel y gall *pwrrpas* rhwng ATAau. O fewn yr ATA, rhaid i gadwraeth y dirwedd weledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol a daearegol fod yn brif ystyriaeth neu bwrpas. Er mwyn cael dynodiad effeithiol, mae'n hollbwysig pennu angen dilys, amddiffynadwy ar gyfer ATA sydd wedi'i gyfiawnhau'n glir.

2.5 Dylid gofyn y cwestiynau canlynol wrth asesu angen:

- A yw'r rheolaethau datblygu a pholisïau dylunio arferol ar gyfer cefn gwlad yn ddigonol i ddiogelu'r cymeriad a'r nodweddion sy'n gwneud y dirwedd yn arbennig?
- Os nodir bod angen mesurau ychwanegol i ddiogelu'r dirwedd, beth fydd yr ATA yn ei gynnig ar ben Polisïau Cynllunio Gwlad a Thref?
- Beth fyddai'r gwerth ychwanegol? A ellir cyfiawnhau dynodi'r ATAau mewn perthynas â pholisïau eraill o fewn yr awdurdod? A ellir cyfiawnhau'r ATAau presennol o hyd?

- A yw'r ATA yn ddigon neilltuol yn lleol i'w chynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol?

Dylai awdurdodau benderfynu pa ganllawiau a fydd gyda'r dynodiad.

Enghreifftiau gan CCGC o amgylchiadau posibl a fyddai'n arwain at yr angen am ddynodi ATA er mwyn diogelu gwerth cynhenid

Angen
Mae tirwedd o bwysigrwydd lleol yn cynnwys nodweddion a phriodweddau gweledol, diwylliannol, hanesyddol, daearegol neu ecolegol sydd mor bwysig yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i nodi'n Ardal Tirwedd Arbennig. Nid oes unrhyw ddynodiadau tirwedd statudol sy'n diogelu'r dirwedd ond mae tystiolaeth o asesiad tirwedd yn cyfiawnhau'r gofyniad am fesurau diogelu effeithiol i warchod y nodweddion a phriodweddau mewn tirwedd sydd o werth a phwysigrwydd lleol.
Mae math neilltuol o dirwedd yn brin yn yr ardal leol neu'r rhanbarth. Felly mae angen diogelu tirwedd sy'n nodedig oherwydd ei phrinder ac sy'n ychwanegu at neilltuolrwydd ac amrywiaeth leol neu ranbarthol.
Cyfle i ddiogelu tirwedd o bwysigrwydd lleol sy'n cael ei hystyried yn werthfawr am ei bod yn agos i aneddiadau ac felly o dan bwysau oddi wrth ddatblygu. Ni ellir cael llawer o newid neu newid graddol pellach yn y dirwedd dan sylw heb amharu'n sylweddol ar gymeriad ac ansawdd y dirwedd leol.
Mae tirwedd o bwysigrwydd lleol yn cynnwys ei nodweddion a phriodweddau gweledol, diwylliannol, hanesyddol, daearegol neu ecolegol pwysig ei hun ond byddai hefyd yn diogelu'r amgylchoedd a'r golygfeydd i mewn ac allan o ardaloedd eraill sydd â dynodiad tirwedd statudol a byddai felly'n hyrwyddo ac yn cyfrannu at y polisïau tirwedd ar gyfer ardal gyfagos sydd wedi'i dynodi.
Yr angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi
Mae angen Dynodiad Tirwedd Arbennig er mwyn canolbwyntio amcanion polisi cynllunio, nodi cyfyngiadau polisi sy'n berthnasol i ardal benodol a rhoi mwy o bwys ar ystyriaethau tirwedd wrth benderfynu. Lle bo'n briodol, dylai'r dynodiad ATA fod yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer gwrthod ceisiadau cynllunio. Rhaid egluro pam y gellid defnyddio dynodiad ATA yn sail i wrthod cais yn ogystal â pholisïau presennol.
Nid yw cwmpas a phwrpas dynodiadau eraill yn dyblygu'r dynodiad ATA. Credir nad yw cwmpas y dynodiadau presennol a'r polisïau presennol ar gyfer rheoli

datblygu a chefn gwlad agored yn diogelu/hyrwyddo buddiannau tirwedd yn ddigonol. Mae dynodi ardaloedd yn ATAau yn rhoi amddiffyniad/cyfarwyddyd/gwybodaeth ychwanegol. Er hynny, ni ddylid dynodi ATAau er mwyn atal bygythiad canfyddedig oddi wrth ddatblygu os gallai polisïau cynllunio eraill (e.e. llain las/lletem las) fod yn fwy priodol.
Tynnu sylw penderfynwyr at yr angen am newid mewn tirwedd sy'n gydnaws â chymeriad a phriodweddau neilltuol y dirwedd leol, gan ddiogelu gwerth a natur unigryw'r dirwedd, a chaniatáu newid priodol yr un pryd.
Llunio canllawiau polisi ar gyfer ATA sy'n glir ac yn cyfleu'n syml beth yw nodweddion a phriodweddau arbennig a gwerth lleol y dirwedd heb fod angen gwybodaeth arbenigol, fel eu bod yn hawdd eu deall gan swyddogion cynllunio, datblygwyr a rheolwyr tir (amaethyddiaeth a choedwigaeth).
Rheoli a Hyrwyddo Pwrpasol
Amcan y dynodiad ATA yw hybu ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig, priodweddau a phwysigrwydd tirwedd o werth lleol fel y gellir ei ddefnyddio i hyrwyddo canllawiau rheoli a cheisiadau grant ar gyfer ardaloedd tirwedd penodol.
Hybu ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth o dirweddau gwerthfawr y tu allan i ardaloedd sydd â dynodiad cenedlaethol.
Gellir gwella ceisiadau am ddatblygu drwy gynnwys canllawiau dylunio sydd wedi'u llunio ar gyfer ATA er mwyn gwella ansawdd y datblygiad a hybu datblygiadau sy'n gydnaws â chymeriad yr ardal leol.
Gallai rhai awdurdodau benderfynu nad ATAau yw'r cwrs gweithredu mwyaf priodol am y gallai fod yn anodd gwahaniaethu rhyngddynt a'r dirwedd o gwmpas neu am na ellir dangos angen clir, pendant ac amddiffynadwy. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai dull polisi sy'n cynnwys y dirwedd gyfan fod yn fwy priodol, gyda pholisïau wedi'u seilio ar feini prawf. Yn yr un modd, os oes dynodiadau cenedlaethol statudol eraill ar ran helaeth o dir yr awdurdod, rhaid ystyried yn ofalus a yw'n briodol ychwanegu dynodiadau atynt.
Cydlyniant
Caiff ATA ei dynodi ar sail ei gwerth cynhenid. Oherwydd hynny, bydd y maint, y raddfa a'r ffiniau wedi'u pennu gan y cymeriad tirwedd sy'n dangos y gwerthoedd y mae'n cael ei dynodi i'w gwarchod. Nid oes terfyn lleiaf ar faint. Er hynny, rhaid dynodi ardal sy'n ddigon mawr i ddatblygu a chyflawni amcanion polisi a rheoli

tirwedd. Mewn rhai ATAAu, gellir cyfiawnhau ffin sy'n cwmpasu rhannau *bach* o'r dirwedd leol sydd heb yr un pwysigrwydd o ran tirwedd. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol hawl i benderfynu cynnwys ardaloedd sy'n llai pwysig o ran tirwedd ar yr amod ei fod yn rhoi cyfiawnhad clir ac amddiffynadwy y gellir ei gyflwyno mewn Ymchwiliad, a bod yr ardaloedd hynny'n *rhan fach* o'r ATA. Gellir gwneud hyn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Er mwyn cynnwys ardal o dir neu dopograffi tebyg sy'n rhan annatod o'r ATA y gellid ei gwella
- Ardal gymharol fach lle mae mwyngloddfeydd neu gloddfeydd gweithredol eraill y gellid eu hadfer i greu tirwedd o ansawdd uchel
- Pennu ATA sy'n croesi'r ffin ag awdurdod lleol cyfagos a bod modd cyfiawnhau cyfanrwydd yr ardal gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gwella'r dirwedd a rennir.

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd datblygiadau newydd presennol neu arfaethedig sydd wedi effeithio'n sylweddol ar ran o'r dirwedd neu y bydd ffactorau sydd wedi amharu arni neu ei difrodi'n helaeth fel bod modd dadlau na ddylid cynnwys yr ardal honno yn yr ATA.

Consensws

- 2.6 Mae ymgynghori ar y CDLI neu Gynlluniau Polisi Tirwedd eraill yn rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau am ddynodi ATAAu. Mae'r dull LANDMAP yn cynnwys cyfleoedd i weithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid gymryd rhan a chyfrannu drwy ymgynghori a thrafod. Gallai cymunedau lleol gyfrannu drwy gynnal astudiaethau o ganfyddiadau'r cyhoedd o dan y dull LANDMAP. Gall yr astudiaethau hyn fod o gymorth i bennu'r hyn sy'n cael ei ystyried yn bwysig yn lleol ac i ganfod ymdeimlad o berthyn i le/hunaniaeth.

Ar ôl canfod angen pendant ac ar ôl ystyried cydlyniant a chonsensws, bydd y Cyngor yn dilyn y camau canlynol er mwyn pennu a chyfiawnhau'r ATA.


Cam 2 – Pennu ardaloedd chwilio eang

- 2.7 Cafodd yr ardaloedd chwilio eang eu pennu drwy adolygiad bwrdd gwaith a dadansoddiad o ddata o system wybodaeth LANDMAP. Roedd hyn yn golygu


dilyn proses adolygu ailadroddol drwy ychwanegu'r 5 haen agwedd a nodi 'mannau poeth' lle mae nifer o agweddau o werth uchel ac eithriadol. Mae'r ffiniau a nodwyd yn cwmpasu ystyriaethau eang ac yn caniatáu manwl gyweirio ffiniau ATAAu penodol yn y cam nesaf.

Mae'r mapiau yn yr adran ganlynol yn dangos y broses a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i edrych yn gyntaf ar bob gwerth agwedd ac wedyn eu tros-haenu i ganfod y prif ardaloedd lle'r oedd haenau lluosog.

Map 1. Y Sir gan ddangos yr holl haenau gwerth uchel



Map 2. Y Sir gan ddangos yr holl haenau gwerth eithriadol




- 2.8 Nid oes llawer o ganllawiau ynghylch nifer yr haenau ym mhob agwedd sy'n cyfiawnhau dynodi ardal yn ATA er y bydd hyn yn dibynnu'n helaeth ar yr ardaloedd sydd wedi'u cynnwys a'r cyd-destun lleol. Fodd bynnag, po fwyaf fydd crynodiad yr haenau, cryfaf fydd y sail resymegol i ddynodi ATA. Ar y llaw arall, po leiaf fydd nifer yr haenau, mwyaf fydd yr angen i gyfiawnhau'r dynodiad. Mae bron y cyfan o ardal y Cynllun wedi'i gynnwys o fewn haenau gwerth uchel (gweler Ffig. 2), gan yr haen agwedd ddiwylliannol yn bennaf. Felly, er mwyn peidio â dibrisio'r ardal gyfan, rydym yn cynnig nodi'r holl ardaloedd hynny sydd â 4 neu ragor o agweddau 'gwerth uchel' a/neu bob un o'r rheini sydd ag 1 neu ragor o agweddau 'gwerth eithriadol' oni bai fod crynodiadau eraill o haenau wedi'u canfod. Mae hyn yn dangos mannau lle mae nifer o haenau a mwy o werth yng nghymeriad y dirwedd. Gellir diffinio'r ardaloedd hyn hefyd ac mae eu maint yn addas i gyfiawnhau eu diogelu.


Cam 3 – Pennu ATAau penodol

- 2.9 Prif bwrpas y cam hwn yw adolygu'r ardaloedd chwilio eang a phennu ffiniau clir i'r ATAau. Mae hyn wedi'i gyflawni drwy arolwg bwrdd gwaith ynghyd ag ymarferiad mapio aml-haenog


Map 3. Y Sir gan ddangos 4+ o barthau haen gwerth uwch




Map 4. Y Sir gan ddangos 2+ o barthau haen gwerth eithriadol




Map 5. Y Sir gan ddangos haenau gwerth uchel a gwerth eithriadol wedi'u cyfuno (ATAau)




Map 6. Y Sir gan ddangos ATAau Arfaethedig




Map 7




Map 8




Map 9




Map 10



Map 11



Map 12



Cam 4 – Datganiad o Werth

2.10 Mae'r cam hwn yn galw am baratoi datganiad o werth yn y fformat yn 2.5 ar gyfer pob ATA sydd wedi'i nodi. Wrth fanwl gyweirio'r ATAAu yn y cam olaf hwn gall y Cyngor asio'r ATAAu â dynodiadau a dyraniadau eraill yn y CDLI er mwyn cael dull polisi cadarn, ystyrion a chyfoes i ddelio ag ATAAu a pholisïau cysylltiedig.

2.11 Yr ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n ATAAu yw:

- 1) **Y Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn**
- 2) **Rhyd-y-foel i Abergele**
- 3) **Dyffrynnoedd Elwy ac Aled**
- 4) **Hiraethog**
- 5) **Cerrigydrudion a choridor yr A5**
- 6) **Dyffryn Conwy**

3. Cyfiawnhad dros bob ATA

3.1. Y Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn

Angen

Mae'r ardal yn dirwedd o bwysigrwydd lleol ac mae'n cynnwys 4 haen gwerth eithriadol a 2 haen gwerth uchel, felly mae mor bwysig yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i nodi'n Ardal Tirwedd Arbennig. Mae dynodiadau Ewropeaidd eraill gan gynnwys ACA y Gogarth, ACA Coedwigoedd Penrhyn y Creuddyn a sawl SoDdGA ond mae'r Cyngor yn credu bod angen mesurau effeithiol i ddiogelu ardaloedd o gwmpas ACAu am eu bod yn dirweddau o bwysigrwydd lleol sy'n ategu'r dynodiadau eraill hynny. Mae'r ardaloedd y tu allan i ffiniau aneddiadau hefyd wedi'u diogelu rhag mewnlenni a datblygu gwasgaredig, a gallai fod yn fwy anodd eu diogelu heb nodi ATA neu ddynodiad tebyg.

Mae'r math o dirwedd yn brin yn yr ardal leol a'r rhanbarth. Mae'n ofynnol diogelu a chadw tirwedd brin nodedig sy'n ychwanegu at neilltuolrwydd ac amrywiaeth leol neu ranbarthol.

Drwy ei dynodi'n ATA mae cyfle i ddiogelu tirwedd o bwysigrwydd lleol sy'n werthfawr am ei bod yn agos i Landudno. Mae'r ardal o dan bwysau oddi wrth ddatblygu drwy fewnlenni gwasgaredig a dylunio is-safonol ond ni ellir cael llawer

o newid neu newid graddol pellach yn y dirwedd heb amharu'n sylweddol ar gymeriad ac ansawdd y dirwedd.

Mae'r Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn yn cynnwys ei nodweddion a phriodweddau gweledol, diwylliannol, hanesyddol, daearegol ac ecolegol pwysig ei hun felly byddai ei dynodi'n ATA hefyd yn diogelu'r amgylchoedd a'r golygfeydd i mewn ac allan o ardaloedd eraill sydd â dynodiad tirwedd statudol ac felly'n hyrwyddo ac yn cyfrannu at bolisiau tirwedd ar gyfer dynodiadau cyfagos.

Yr angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi

Drwy ddynodi'r ardal yn ATA bydd amcanion polisi cynllunio a chyfyngiadau polisi yn canolbwyntio ar yr ardal. Ar hyn o bryd defnyddir Cynllun Ardal Llandudno/Conwy 1982 yn y broses rheoli datblygiadau. Mae'n cynnwys Ardal Cadwraeth Tirwedd sy'n cwmpasu pob man y tu allan i'r ffiniau anheddiad sydd wedi'u dynodi. Bydd yr ATA arfaethedig yn rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu'r dirwedd a byddai'n ystyriaeth berthnasol ar gyfer gwrthod ceisiadau cynllunio.

Mae'r ATA yn gydnaws â chymeriad a phriodweddau neilltuol y dirwedd leol a bydd o gymorth i ddiogelu nodweddion unigryw a gwerth y dirwedd gan ganiatáu newid priodol.

Rheoli a Hyrwyddo Pwrpasol

Bydd dynodi'r ardal yn ATA yn hybu ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig, priodweddau a phwysigrwydd tirwedd sydd o werth lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel dull rheoli buddiol ac fel y gellir llunio canllawiau penodol i'w hystyried wrth lunio ceisiadau am ddatblygu yn y dyfodol. Mae hefyd yn hybu ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth o dirwedd werthfawr mewn ardal sydd eisoes wedi'i nodi'n un bwysig oherwydd ei gwerth ecolegol.

Cydlyniant

Mae'r ardal wedi'i seilio ar nodwedd ddaearegol neilltuol a'i hamgylchoedd a bydd canllawiau dylunio penodol ar gyfer yr ardal. Mae'r ATA hon yn cynnwys yr haenau LANDMAP canlynol:

Gwerth Uchel:

Tirwedd Ddaearegol: CNWGL010

Gweledol a Synhwyrdd: CNWVS022, CNWVS063

Gwerth Eithriadol:

Tirwedd Hanesyddol: CNWHL027, CNWHL054, CNWHL065

Tirwedd Ddaearegol: CNWGL011, CNWGL014, CNWGL013

Cynefinoedd Tirwedd: CNWLH017, CNWLH021, CNWLH026

Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL008, CNWCL010, CNWCL016

3.2. Cefnwlad Abergele

Angen

Mae'r ardal yn dirwedd o bwysigrwydd lleol ac mae'n cynnwys nodweddion a phriodweddau gweledol, diwylliannol a chynefinoedd tirwedd sydd mor grynodeg a phwysig yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i nodi'n ATA. Mae nifer o haenau agwedd gwerth uchel yn yr ardal sydd â chrynodiad amlwg fel bod angen diogelu a chadw tirwedd brin nodedig sy'n ychwanegu at neilltuolrwydd ac amrywiaeth leol neu ranbarthol. Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig diogelu'r ardal ar lefel leol a'i bod yn ategu dynodiadau eraill fel SoDdGA a RIGS. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u diogelu hefyd rhag mewnlenni ac ymyrraeth wasgaredig mewn cefnwlad wledig sydd mor agos at ardal drefol ar yr arfordir. Heb ei dynodi'n ATA neu ei chydabod mewn modd tebyg, byddai'r ardal yn cael ei hystyried yn gefn gwlad agored ac yn cael ei hasesu drwy bolisi wedi'i seilio ar feini prawf.

Drwy ei dynodi'n ATA bydd cyfle i ddiogelu'r ardal fel tirwedd o bwysigrwydd lleol sy'n cael ei hystyried yn werthfawr am ei bod wedi'i thanddatblygu ac am ei bod yn agos i'r arfordir trefol. Ni ellir cael llawer o newid neu newid graddol pellach yn y dirwedd dan sylw heb amharu'n sylweddol ar gymeriad ac ansawdd y dirwedd ac felly mae'n dirwedd sydd â gwerth uchel yn lleol.

Yr angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi

Mae angen dynodiad tirwedd arbennig er mwyn canolbwyntio amcanion polisi cynllunio, pennu cyfyngiadau polisi sy'n berthnasol i'r ardal a rhoi mwy o bwys ar ystyriaethau tirwedd wrth wneud penderfyniadau. Bydd dynodiad ATA yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer gwrthod ceisiadau cynllunio, ac yn rhoi mwy o allu i

warchod yr ardal rhag datblygu amhriodol mewn ardal lle mae datblygu'n her gyson oherwydd apêl ei natur wledig a'i hagosrwydd i fannau cyswllt allweddol ar hyd yr arfordir trefol.

Rheoli a Hyrwyddo Pwrpasol

Bydd dynodi'r ardal yn ATA yn hybu ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig, priodweddau a phwysigrwydd tirwedd sydd o werth lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel dull rheoli buddiol ac fel y gellir llunio canllawiau penodol i'w hystyried wrth lunio ceisiadau am ddatblygu yn y dyfodol. Mae hefyd yn hybu ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth o dirwedd werthfawr mewn ardal sydd eisoes wedi'i nodi'n un bwysig oherwydd ei gwerth hanesyddol a gweledol. Heb ei dynodi'n ATA, ni fyddai modd gwahaniaethu rhwng y gwerth tirwedd sydd wedi'i nodi drwy ddefnyddio LANDMAP a thirweddau o werth is.

Cydlyniant

Er nad oes haenau gwerth eithriadol mae'r ardal yn cynnwys pob un o'r 5 haen agwedd gwerth uchel ac mae'r rhain yn gorgyffwrdd gan mwyaf. Mae'r ATA hon yn cynnwys yr haenau LANDMAP canlynol:

Gwerth Uchel:

Tirwedd Hanesyddol: CNWHL005, CNWHL074, CNWHL082

Tirwedd Ddaearegol: CNWGL083

Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL018

Gweledol a Synhwyrdd: CNWVS008, CNWVS017, CNWVS075

Cynefinoedd Tirwedd: CNWLH063

Dim haenau gwerth eithriadol.

3.3. Dyffrynnoedd Elwy ac Aled

Angen

Mae'r ardal yn dirwedd o bwysigrwydd lleol yn yr holl haenau tirwedd ac mae ei phriodweddau mor bwysig yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i nodi'n ATA. Prin iawn yw'r dynodiadau tirwedd statudol eraill sy'n diogelu'r ardal. Nid yw ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy gerllaw wedi'i chynnwys yn yr ATA oherwydd y meini prawf a ddefnyddiwyd ond mae ganddi statws gwarchodaeth Ewropeaidd sydd wedi'i seilio ar werth cynefinoedd.

Yr angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi

Mae angen dynodi'r ardal yn ATA er mwyn canolbwyntio amcanion polisi cynllunio, pennu cyfyngiadau polisi sy'n berthnasol i ardal benodol a rhoi mwy o bwys ar ystyriaethau tirwedd wrth wneud penderfyniadau. Bydd dynodiad ATA yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer gwrthod ceisiadau cynllunio amhriodol.

Mae'r dyffrynnoedd yn unigryw yn y Sir ac yn uchel eu gwerth o ran cynefinoedd a daeareg. Heb ei dynodi'n ATA, ni fyddai modd gwahaniaethu rhwng y gwerth tirwedd sydd wedi'i nodi drwy ddefnyddio LANDMAP a thirweddau o werth is.

Rheoli a Hyrwyddo Pwrpasol

Bydd dynodi'r ardal yn ATA yn hybu ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig, priodweddau a phwysigrwydd tirwedd sydd o werth lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel dull rheoli buddiol ac fel y gellir llunio canllawiau penodol i'w hystyried wrth lunio ceisiadau am ddatblygu yn y dyfodol. Mae hefyd yn hybu ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth o dirwedd werthfawr mewn ardal sydd eisoes wedi'i nodi'n un bwysig o ran ecoleg.

Cydlyniant

Mae'r ATA hon yn cynnwys yr haenau LANDMAP canlynol:

Gwerth Uchel:

Tirwedd Hanesyddol: CNWHL013, CNWHL030, CNWHL077, CNWHL080.

Tirwedd Ddaearegol: CNWGL047, CNWGL046, CNWGL050, CNWGL045, CNWGL049.

Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL012, CNWCL019

Gweledol a Synhwyrdd: CNWVS020, CNWVS021, CNWVS066

Gwerth Eithriadol:

Cynefinoedd Tirwedd: CNWLH039, CNWLH040, CNWLH064

Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL003.

3.4. Hiraethog

Angen

Mae'r ardal yn dirwedd o bwysigrwydd lleol ac mae'n cynnwys nodweddion a phriodweddau gweledol, diwylliannol, hanesyddol, daearegol ac ecolegol sydd mor grynodedig yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i nodi'n ATA. Mae dynodiadau Ewropeaidd eraill, gan gynnwys SoDdGA, ond mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig cymryd camau effeithiol i ddiogelu gwerth tirwedd yr ardaloedd o gwmpas y rhain er mwyn ategu'r dynodiadau eraill. Mae'r ardal hon wedi'i gwarchod hefyd rhag datblygu amhriodol, yn enwedig datblygiadau helaeth o dyrbinau gwynt, er mwyn diogelu'r agwedd weledol ar y dirwedd ac ecoleg. Mae SoDdGA yn cwmpasu'r rhan fwyaf o ardal Hiraethog, a rhostir a glaswelltir heb ei wella a geir yma gan mwyaf ond mae hefyd yn ardal allweddol ar gyfer twristiaeth gan fod ynddi lwybrau cerdded a chysylltiadau â chronfeydd dŵr Llyn Brenig a Llyn Aled i'r gorllewin o'r ATA.

Mae'r math o dirwedd yn brin yn yr ardal leol a'r rhanbarth. Mae'n ofynnol diogelu a chadw tirwedd brin nodedig sy'n ychwanegu at neilltuolrwydd ac amrywiaeth leol neu ranbarthol.

Yr angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi

Mae'r ardal yn dirwedd o bwysigrwydd lleol yn yr holl haenau tirwedd ac mae ei phriodweddau mor bwysig yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i nodi'n Ardal Tirwedd Arbennig. Drwy ei dynodi'n ATA bydd cyfle i ddiogelu tirwedd o bwysigrwydd lleol sy'n werthfawr oherwydd ei harddwch naturiol sydd o dan bwysau oddi wrth ddatblygu, yn enwedig ar gyfer tyrbinau gwynt. Ni ellir cael llawer o newid neu newid graddol pellach yn y dirwedd dan sylw heb amharu'n sylweddol ar gymeriad, ansawdd a gwerth y dirwedd. Mae'r ardal hefyd yn rhan o lawer o olygfeydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.

Heb ei dynodi'n ATA, ni fyddai modd gwahaniaethu rhwng y gwerth tirwedd sydd wedi'i nodi drwy ddefnyddio LANDMAP a thirweddau o werth is a byddai'n fwy anodd ei gwarchod rhag mathau amhriodol o ddatblygu.

Rheoli a Hyrwyddo Pwrpasol

Yr amcan wrth ddynodi'r ardal yn ATA yw hybu ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig, priodweddau a phwysigrwydd tirwedd sydd o werth lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel dull rheoli buddiol ar gyfer cynlluniau rheoli tirwedd penodedig a fydd â chysylltiadau cydategol â mentrau eraill ar gyfer twristiaeth a mynediad. Bydd hyn yn hybu ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth o'r dirwedd werthfawr y tu allan i ardaloedd sydd â dynodiad cenedlaethol.

Cydlyniant

Mae'r ATA hon yn cynnwys yr haenau LANDMAP canlynol:

Gwerth Uchel:

Tirwedd Ddaearegol: CNWGL096

Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL020

Gweledol a Synhwyrdd: CNWVS003, CNWVS046, CNWVS071

Cynefinoedd Tirwedd: CNWLH071

Gwerth Eithriadol:

Tirwedd Hanesyddol: CNWHL047

Cynefinoedd Tirwedd: CNWLH053

Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL021

3.5. Cerrigydrudion a choridor yr A5

Angen

Mae'r ardal yn dirwedd o bwysigrwydd lleol ac mae'n cynnwys nodweddion gweledol, daearegol a hanesyddol a phriodweddau diwylliannol eithriadol, felly mae mor bwysig yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i nodi'n ATA. Mae dynodiadau Ewropeaidd eraill, gan gynnwys SoDdGA, yn yr ardal ond mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig cymryd camau effeithiol i ddiogelu'r ardaloedd o gwmpas y rhain er mwyn ategu'r dynodiadau eraill. Mae'r ardal hon wedi'i gwarchod hefyd rhag datblygu amhriodol, yn enwedig datblygiadau helaeth o dyrbinau gwynt, er mwyn diogelu'r dirwedd ac ecoleg. Mae'r math o dirwedd yn brin yn yr ardal leol a'r rhanbarth. Mae'n ofynnol diogelu a chadw tirwedd brin nodedig

sy'n ychwanegu at neilltuolrwydd ac amrywiaeth leol neu ranbarthol.
Yr angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi Mae'r ardal yn dirwedd o bwysigrwydd lleol yn yr holl haenau tirwedd ac mae ei phriodweddau mor bwysig yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i nodi'n ATA. Heb ei dynodi'n ATA, ni fyddai modd gwahaniaethu rhwng y gwerth tirwedd sydd wedi'i nodi drwy ddefnyddio LANDMAP a thirweddau o werth is. Mae'r ardal hon yn bwynt mynediad allweddol i'r Sir ar hyd yr A5 ac yn llwybr hanesyddol drwy dirwedd wledig Conwy.
Rheoli a Hyrwyddo Pwrpasol Bydd dynodi'r ardal yn ATA yn hybu ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig, priodweddau a phwysigrwydd tirwedd sydd o werth lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel dull rheoli buddiol ac fel y gellir llunio canllawiau penodol i'w hystyried wrth lunio ceisiadau am ddatblygu yn y dyfodol. Mae hefyd yn hybu ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth o dirwedd werthfawr mewn ardal sydd eisoes wedi'i nodi'n un gyfoethog o ran ei thirwedd ddiwylliannol.
Cydllyniant Mae'r ATA hon yn cynnwys yr haenau LANDMAP canlynol: Gwerth Uchel: Tirwedd Hanesyddol: CNWHL045 Tirwedd Ddaearegol: CNWGL101, CNWGL102 Gweledol a Synhwyrdd: CNWVS006, CNWVS013, CNWVS050, CNWVS078 Cynefinoedd Tirwedd: CNWLH086 Gwerth Eithriadol: Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL027

3.6. Dyffryn Conwy

Angen

Mae'r ardal yn dirwedd o bwysigrwydd lleol yn yr holl haenau agwedd ac mae ei hansawdd a'i chrynnodiad yn y cyd-destun lleol yn ei gwneud yn deilwng o'i nodi'n ATA. Mae'r ardal o dan bwysau hefyd oddi wrth ddatblygu gwledig gwasgaredig, yn enwedig oddi wrth ddatblygiadau carafannau sefydlog/cabanau gwyliau sydd wedi'u lleoli'n wael oherwydd gwendid mewn polisi lleol yn y gorffennol. Mae'r ardal yn bwynt mynediad allweddol i Barc Cenedlaethol Eryri ar y ffordd ar hyd Dyffryn Conwy. Mae angen cadw golygfeydd a thrin y dirwedd â pharch er mwyn peidio â diraddio'r priodweddau a golygfeydd presennol.

Mae dynodiadau eraill yn yr ardal, fel y Parth Dylanwad Gweledol ar gyfer safle Treftadaeth y Byd o gwmpas Castell Conwy, polisi Parth Arfordirol NTE/6, dynodiad SoDdGA aber Conwy a'r system afonydd llanw, a lletemau glas, ond nid oes dynodiad tirwedd pendant ar hyn o bryd. Mae'r math o dirwedd yn unigryw yn yr ardal leol a'r rhanbarth. Mae'n ofynnol diogelu a chadw tirwedd brin nodedig sy'n ychwanegu at neilltuolrwydd ac amrywiaeth leol neu ranbarthol.

Drwy ddynodi'r ardal yn ATA, bydd cyfle i ddiogelu tirwedd o bwysigrwydd lleol sy'n cael ei hystyried yn werthfawr am ei bod yn agos i dref Conwy a safle Treftadaeth y Byd Castell Conwy. Mae mewn man unigryw mewn perthynas â Pharc Cenedlaethol Eryri sy'n ardal ddeniadol sydd o dan bwysau oddi wrth ddatblygu amhriodol. Ni ellir cael llawer o newid graddol pellach yn y dirwedd dan sylw heb amharu'n sylweddol ar ei chymeriad, ei hansawdd a golygfeydd lleol felly mae'n dirwedd sydd â gwerth uchel yn lleol.

Yr angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi

Mae ardal Dyffryn Conwy wedi dioddef oherwydd dibyniaeth ar ddogfennau polisi lleol sydd wedi dyddio a oedd yn ddiffygiol o ran manylder a thrylwyrdd. Mae'r prif fygythiad oddi wrth ddatblygu goramlwg mewn amgylchedd sy'n naturiol fel arall ac sydd â choetiroedd, coedwigaeth a thir amaethu gan gynnwys nodweddion tirwedd ar ffurf nentydd mynydd, waliau cerrig a glaswelltir wedi'i ledwella. Mae golygfeydd yn elfen bwysig yn yr ardal ac ar y ffordd tuag at Barc Cenedlaethol Eryri, Castell Conwy ac uwchdiroedd yng ngweddill Conwy. Bydd

rhyngweledd rhwng ATAau eraill a Pharc Cenedlaethol Eryri yn ystyriaeth yn y dyfodol hefyd. Amcan allweddol yn y dyfodol fydd diogelu'r ardal rhag datblygiadau tyrbinau amhriodol.

Rheoli a Hyrwyddo Pwrpasol

Yr amcan wrth ddynodi'r ardal yn ATA yw hybu ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig, priodweddau a phwysigrwydd tirwedd sydd o werth lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel dull rheoli buddiol er mwyn sicrhau dylunio a thriniaeth tirwedd o ansawdd da mewn unrhyw ddatblygiadau. Er bod twristiaeth yn allweddol i'r ardal ac yn gysylltiedig â Pharc Cenedlaethol Eryri, bydd yn ofynnol i ddatblygiadau fod o ansawdd eithriadol yn yr ardal hon gan ategu'r lleoliad a haen(au) agwedd penodol y lleoliad.

Cydllynant

Mae'r ATA hon yn cynnwys yr haenau LANDMAP canlynol:

Gwerth Uchel:

Tirwedd Hanesyddol: CNWHL060, CNWHL061, CNWHL064, CNWHL069, CNWHL071

Tirwedd Ddaearegol: CNWGL039, CNWGL029, CNWGL032, CNWGL040, CNWGL110, CNWGL056, CNWGL034, CNWGL059

Gweledol a Synhwyrdd: CNWVS018, CNWVS058, CNWVS064, CNWVS067, CNWVS073, CNWVS074.

Cynefinoedd Tirwedd: CNWLH027, CNWLH050, CNWLH054, CNWLH087.

Gwerth Eithriadol:

Tirwedd Hanesyddol: CNWHL066, CNWHL068

Tirwedd Ddaearegol: CNWGL028, CNWGL058

Gweledol a Synhwyrdd: CNWVS015

4. Pwrpas y Polisi NTE/5.

- 4.1 Bydd angen Datganiad Effaith ATA ar gyfer pob datblygiad y tu allan i derfynau'r aneddiadau fel sydd wedi'i ddiffinio ar y mapiau cynigion a phob datblygiad dros 15 annedd neu 0.5 hectar o fewn terfynau aneddiadau. Os yn bosibl gellir ymgorffori hyn yn y Datganiad Dylunio a Mynediad neu fel dogfen ar wahân sy'n archwilio

rhesymu ac ymatebolrwydd y dyluniad i'r ATA(au) lle mae wedi'i leoli. Disgwylir y bydd Datganiad Effaith ATA yn cyfeirio'n ôl at wybodaeth yn LANDMAP ac yn darparu manylion am ba rai o'r pum agwedd cymeriad tirwedd yr effeithir arnynt a sut mae'r datblygiad yn delio ag unrhyw effeithiau.

- 4.2 Wrth integreiddio unrhyw ddatblygiad o fewn y dirwedd, dylid hefyd ystyried elfennau tirwedd, fel waliau, coed, neu wrychoedd sy'n bwysig i gymeriad tirwedd a dylid eu cadw. Ni chaniateir datblygiad nad oes modd ei integreiddio yn sensitif ac yn anymwthiol yn y dirwedd, ac a fyddai'n niweidio'r parth cymeriad tirwedd penodol. Mewn rhai achosion, gall y datblygiad bwriedig elwa o gael ei dirweddu, mewn modd sy'n gyson â'r ardal, i leihau ei effeithiau.

5. Cysondeb ag Awdurdodau Cyfagos

Mae Conwy yn cydffinio ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) a Chyngor Sir Ddinbych. Mae hefyd yn rhannu rhan fach iawn o'r arfordir â Chyngor Gwynedd.

CDLI Eryri 2011

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn defnyddio LANDMAP i bennu Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ac mae dyheadau penodol yn y Cynllun Rheolaeth ar gyfer pob ACT. Mae 3 ACT yn cydffinio â Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r rhain, ynghyd â'r dyheadau yn y Cynllun Rheolaeth, yn cynnwys:

Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri ynghyd â'r amcanion rheoli:	Sylwadau gan CBSC
LCA1 – Carneddau <u>Amcanion Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol</u> Amcan 5a: Hyrwyddo cysylltedd ecolegol. Amcan 8: Diogelu a gwella tirweddau a mathau cymeriad neilltuol. Amcan 11b: Deall gwerth adeiladau, safleoedd a thirweddau rhestredig, eu diogelu a'u gwella. Amcan 12: Deall gwerth safleoedd ac adeiladweithiau sydd heb eu rhestru a'r amgylchedd hanesyddol ehangach, eu diogelu a'u gwella.	Credir nad oes goblygiadau negyddol i amcanion Cynllun Rheolaeth PCE o ganlyniad i CDLI Conwy. Mae adrannau cynllunio'r ddau awdurdod mewn cysylltiad rheolaidd a cheir cydgysylltu ac

Amcan 19: Hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy ymysg ymwelwyr. Amcan 21: Hyrwyddo twf economaidd yn y sectorau nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol.	ymgyngori ar draws ffiniau ar geisiadau sy'n agos i ffiniau'r ddau awdurdod.
LCA6 – Coedwig Gwydyr <u>Amcanion Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol</u> Amcan 1c: Rheoli effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy effeithlonrwydd ynni a dylunio da. Amcan 2: Hyrwyddo dylunio cynaliadwy o ansawdd da mewn adeiladau newydd a rhai presennol. Amcan 5: Hyrwyddo cysylltedd ecolegol. Amcan 8: Diogelu a gwella tirweddau a mathau cymeriad neilltuol. Amcan 19: Hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy ymysg ymwelwyr. Amcan 24: Hyrwyddo a gwella gwasanaethau trafndiaeth cynaliadwy. Amcan 25: Lleihau pwysau oddi wrth draffig a pharcio.	Nid oes dyraniadau'n agos i'r ardal hon ac mae datblygu o fewn BSC wedi'i gyfyngu gan berygl o lifogydd a thopo-graffi. Felly bydd aneddiadau Trefriw a Dolgarrog, sydd am y ffin rhwng y ddau awdurdod, yn cael eu heangu yn y rhannau sydd o fewn APCE. Mae CDLI Conwy o blaid datblygiadau twristiaeth yn yr ardal sy'n hybu gwelliannau trawsffiniol mewn gwasanaethau, mynediad a chyfleusterau.
LCA8 - Migneint <u>Amcanion Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol</u> Amcan 5: Hyrwyddo cysylltedd ecolegol. Amcan 8: Diogelu a gwella tirweddau a mathau cymeriad neilltuol. Amcan 19: Hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy ymysg ymwelwyr. Amcan 24: Hyrwyddo a gwella gwasanaethau trafndiaeth cynaliadwy. Amcan 25: Lleihau pwysau oddi wrth draffig a pharcio.	Mae Migneint wedi'i ddiogelu'n rhannol fel ACA ac AGA. Mae i'r de o Ardal y Cynllun ac ymhell o unrhyw ddatblygu arfaethedig. Byddid yn anghymell datblygiadau tyrbinau gwynt o fewn neu'n gyfagos i'r ardal. Bydd y ddau awdurdod yn

	ymgynggori â'i gilydd ar unrhyw geisiadau y credir eu bod ag effaith drawsffiniol.
--	--

Er bod dull gwahanol wedi'i ddefnyddio mewn cysylltiad â Chynllun Rheolaeth PCE, ni chredir y bydd yr amcanion ar gyfer ATAAu yng Nghonwy neu unrhyw gyd-ffeithiau negyddol yn effeithio ar yr amcanion. Mae effeithiau ar yr holl safleoedd Ewropeaidd a warchodir, gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd cyfagos, wedi'u hasesu yn BP12/Arfarniad y Rheoliadau Cynefinoedd.

CDLI Sir Ddinbych 2011

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi defnyddio polisïau sy'n bod eisoes ar gyfer diogelu tirweddau yn y CDLI y mae wedi'i gyflwyno:

Polisi VOE 1 – Ardaloedd gwarchodaeth allweddol	Sylwadau gan CBSC
Diogelir yr ardaloedd canlynol rhag datblygu amhriodol a, lle bynnag y bo modd, byddant yn cael eu gwella ar sail eu nodweddion neilltuol a'u gwerth i gymunedau lleol yn sir Ddinbych:	Amherthnasol
i) Safleoedd sydd â dynodiad statudol ar gyfer gwarchod natur;	Nid yw CBSC yn bwriadu datblygu neu beri effaith negyddol ar unrhyw safle sydd â dynodiad statudol ar gyfer gwarchod natur.
ii) Ardaloedd Lleol sydd wedi'u dynodi neu eu pennu ar sail eu gwerth o ran tirwedd, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, archeoleg a/neu amaethyddiaeth;	Dim effaith o ganlyniad i CDLI Conwy.
iii) Mannau agored cyhoeddus ffurfiol a chyfleusterau hamdden;	Dim effaith o ganlyniad i CDLI Conwy.
iv) Tir cyflogaeth a safleoedd adeiladau sy'n cynnwys treftadaeth adeiledig, tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi hanesyddol;	Dim effaith o ganlyniad i CDLI Conwy.

v) Tir maes glas â gorlifdir diffiniedig.	Dim effaith o ganlyniad i CDLI Conwy.
vi) Tir wedi'i ddynodi i'w ddefnyddio gan y gymuned.	Dim effaith o ganlyniad i CDLI Conwy.
Polisi VOE 2 – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.	
Wrth benderfynu ar geisiadau am Ddatblygu a fyddai o fewn yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a'r Ardal o Harddwch Eithriadol, neu'n effeithio arnynt, fe'u cymeradwyir lle na fyddai'r datblygiad yn peri niwed annerbyniol i gymeriad ac ymddangosiad y dirwedd ac ar yr amod bod y datblygiad yn dderbyniol yng nghyd-destun polisiau eraill y Cynllun Datblygu Lleol.	Mae'r AHNE yn 10km o'r ffin rhwng awdurdodau Conwy a Sir Ddinbych, felly ni fydd yr ATA agosaf sydd wedi'i dynodi'n fygythiad o gwbl i'r AHNE. Mae polisiau eraill wedi'u hasesu drwy Arfarniad y Rheoliadau Cynefinoedd yn BP11.

6. Casgliadau a Chrynodeb

Am fod ardaloedd diogelu tirwedd blaenorol mewn dogfennau cynllunio blaenorol wedi cynnwys y sir gyfan, cafwyd gwendidau ac anhawster wrth amddiffyn gwerth tirwedd un ardal o'i chymharu ag un arall. Mae'r dull diwygiedig o drafod ATAau sydd yn y ddogfen hon yn cyflwyno methodoleg lawer mwy manwl drwy ddefnyddio LANDMAP i bennu a nodi ATAau penodol. Mae'r astudiaeth wedi canfod 6 ardal allweddol lle mae nifer o haenau o ddata LANDMAP yn gorgyffwrdd gan ddangos yr ardaloedd mwyaf pwysig.

Mae'r Cyngor wedi dibynnu yn y gorffennol ar ddogfennau polisi sydd wedi dyddio ac mae hyn wedi arwain at ddatblygu gwasgaredig ac anallu i amddiffyn penderfyniadau ar sail gwerth tirwedd. Manteision y polisi a chanllawiau newydd hyn fydd mwy o eglurder a mwy o amddiffyniad i'r ardaloedd mwyaf gwerthfawr.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ag awdurdodau cyfagos i benderfynu a oes unrhyw faterion trawsffiniol pellach i'w hystyried ac mae'r ddau awdurdod wedi'u bodloni y bydd unrhyw effeithiau trawsffiniol o'r cynigion yn rhai cadarnhaol.

7. Rhagor o ddarllen a gwybodaeth

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Landmap: www.landmap.ccw.gov.uk
- LANDMAP and Special Landscape Areas, CCGC, 2008.
- Comisiwn Dylunio Cymru: www.dcfw.org
- Cabe Space: www.cabe.org.uk
- SPG Dylunio CBS Conwy: www.conwy.gov.uk
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Canllawiau Cynllunio Atodol – Tirwedd, Mehefin 2011.

Atodiad Un

Mae'r polisi canlynol fel mae yn ymddangos yn adran 4.6.6 y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd Diwygiedig 2011:

POLISI NTE/5 Y DIRWEDD A DIOGELU ARDALOEDD TIRWEDD ARBENNIG

Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi'u dangos ar y map cynigion ac wedi'u dynodi yn y lleoliadau canlynol:

- a) Y Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn*
- b) Dyffryn Conwy*
- c) Cefnwlad Abergele*
- d) Dyffrynnoedd Elwy ac Aled*
- e) Hiraethog*
- f) Cerrigydrudion a choridor yr A5*

Er mwyn cadw priodoleddau'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, bydd yn rhaid i geisiadau am ddatblygu roi sylw penodol i gymeriad pob ardal er mwyn lleihau eu heffaith. Ni chaniateir datblygiad oni bai ei bod wedi'i dangos bod modd ei integreiddio'n foddhaol â'r dirwedd. Mewn achosion priodol, dylid rhoi asesiad cymeriad tirwedd gyda cheisiadau cynllunio i asesu effeithiau gweledol y datblygiad a'i effeithiau ar y dirwedd.

Bydd yr holl geisiadau, y tu mewn a'r tu allan i ATAau, yn cael eu hystyried ar sail yr Egwyddorion Datblygu a pholisïau eraill yn y Cynllun sydd â'r amcan o ddiogelu'r amgylchedd a chymeriad tirweddau.